CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**05.09.24**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*

## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*

## *A Stafell Gyfarfod Stesion*

## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) TAJ; AR; RJ; GW, EO; JAJ; DAW;EY;RY<br>**Ymddiheuriadau:** LLMH; IW; DP<br>**Mynychu:** SWR;<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd Cyng JL ddiddordeb mewn trafodaethau am Gynllunio CSYM ac Menter Môn. DAW mewn unrhyw drafodaethau am Cwmni Eiddo Cyf. |
| | **Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol**<br>• **Adroddiad y Cadeirydd –** cafwyd crynodeb o'r gwaith gyflawnwyd yn ystod cyfnod y Cadeirydd presennol (gweler yma) Diolchodd JOJ i'r Cynghorwyr Sir am eu gwaith a dymunodd yn dda Llinos Medi ar ei gyrfa yn Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Ynys Môn. Diolchodd hefyd i'w cyd-aelodau am eu gwaith ac i'r Clerc am gyd-weithio da. Trosglwyddwyd yr awennau i'r Is-Gadeirydd Robin Jones.<br>Adroddiad Cadeirydd.docx |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • **Dewis Swyddogion –** cytunwyd i'r Clerc holi DP a IW yn eu habsenoldeb a thrafod ymhellach yng nghyfarfod mis Hydref.<br>• **Cyfrifon 2023-24 –** adroddodd y Clerc bod y cyfrifon wedi eu hanfon yn bresonol at swyddfa Archwilio Cymru o fewn yr amserlen.  Dim ymateb hyd yma. |
| 3 | **Cofnodion 06.06.24**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 27.06.24 fel rhai cywir (EO/JOJ)<br><br>**Nodiadau Ymweliad Safle – 17.7.24**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd y nodiadau yn unol âg ychwanegu cyferio at ardal claddu llwch yn y Fynwent Gyhoeddus rhwng Plot A a wal Mynwent yr Eglwys.  (DAW/EO)<br><br>**Materion yn Codi**<br>• **Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM –** dim diweddariad i law. Nodwyd bod nifer ychwanegol o faterion dan sylw a chytunwyd i'r Clerc ddiweddaru'r Cynllun Gweithredu gan gyflwyno cais am ymweliad safle mor fuan a phosib<br>• **Prosiect MonActif –** derbyniwyd cais i fynychu heno ond gwrthodwyd o ganlyniad i raglen lawn.  Ymlaen i mis Hydref o bosib – Clerc i wirio.<br>• **Gwaredu Byrddau Snwcer –** RJ wedi trefnu i werthu y ddau fwrdd gorau am £200 yr un.  Byrddau wedi eu casglu bellach a diolchwyd i RJ am ofalu.  Un bwrdd yn weddill – JL yn trefnu i rhywun ei weld cyn 11 Medi wedyn cynnig i'r ail gais os bydd angen.<br>• **Cyfarfod Menter Môn** –trefniadau ar y gweill i gael cyfarfod cychwynnol gyda Menter Môn i drafod ein dogfennau statudol. Bydd hwn trwy ZOOM 17.09.24 am 6pm – gwahoddiad i bawb.  Clerc i atgoffa nes i'r amser.<br>• **Papur opsiynau Unedau Tan y Foel –** yn anffodus nid oedd papur terfynol i law oherwydd pwysau gwaith Rhys Jones.  Cytunwyd i drefnu cyfarfod o fewn y bythefnos nesaf ar gyfer y drafodaeth yma yn unig.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn **– 05.09.24** |
| 5 | **Materion Trwy'r Gadair**<br>• **Cyfarfod Fferm Solar Alaw Mon/Maen Hir – adroddodd C**yng Jackie Lewis a DAW am gyfarfod drefnwyd gan Partneriaeth Gogledd Môn gyda Lightsource BP. Datganodd JL ddiddordeb gan ei bod yn gyflogedig gan Menter Môn  Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan DW.  Nododd y bydd unrhyw fuddion ariannol yn cael eu gweinyddu drwy CSYM a Menter Môn.  Dywedwyd bod Prif |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Swyddog Menter Môn yn ymholi am ofynion statudol y gweinyddu fydd gyda arian Enzo (Alaw Mon) neu BP Lighthouse (Maen Hir). Eto, cyferiwyd at y negeseuon gwahanol sy'n cael eu cyfleu yn ystod yr ymgynghoriadau rhwng y cwmniau a'r gymunedau.<br><br>Dywedodd JL bod Llinos Medi AS yn holi yn San Steffan am amserlen a mwy o fanylder gyda Wylfa.<br><br>• **Cais Rheilffordd Llangollen –** cytunwyd i'r cais i gael tren bach Eliseg, oedd ar fenthyg gan Rheilffordd Llangollen, yn ôl. Clerc i wirio trefniadau.<br>• **Gohebiaeth o Bachau –** pryder gan breswyliwr ym Machau ar y gor yrru trwy'r ardal. Cytunwyd i ychwanegu hyn i'r Cynllun Gweithredu ac i'r Clerc ymateb i ebost y preswyliwr.<br>• **Golau Stryd ger mynediad i Stryd Bach -** o gyfeiriad yr Unedau yn ddiffygiol. RJ i wirio a chysylltu a Mon Williams CSYM |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 27.6.24**<br>• Cyflog Clerc – Mehefin Gorffennaf ac Awst = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• Scottish Power trydan Uned 1 £61.55<br>• Aelodaeth Unllais - £265<br>• CSYM - Les Cae Astro - £117.30<br>• Archwiliadau Playsafety ROSPA - £468.00<br>• Gwaith HMRC/PAYE IG Jones Cyfrifydd - £258.00<br>• Nwy Prydian trydan Lawnt Bowlio - £20.23<br>• PGF Agri peiriant torri gwair CPD – £5300.00 gyda ad-daliad £4416.67 gan CPD<br>• Meirion Grieves, gosod dwy fainc a trwsio wal yn y Stesion - £350<br>• SP trydan Uned 1 - £61.55<br>• Bilia Hwb LlanNi (Cadran a QAI) – £1380 gyda ad-daliad Loteri £1150<br>• Clive Harper– Costau Etholiad 4.7.24 - £200<br>• SP trydan Uned 2 (cyfrif mewn anghydfod) - £980.50 (Hydref 2021 – Awst 2024 - sef £30 y mis ar gyfartaledd)<br>• Cais Cynllunio CPD Ieuenctid am lwybr concrid – £115.00 disgwyl ad-daliad<br>• SP trydan Uned 1 - £61.55<br>• HMRC trwy IG Jones - £495.20<br>• SP trydan Golau Dolig - £162.33 (3 mis)<br>• SP trydan CPD - £163.97 (3 mis)<br><br>Atgoffwyd bod taliadau isod yn fisol<br>• *Yswiriant Cae Gofeb - £50.10*<br>• *Yswiriant - £634.16* |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Trafodwyd y ceisiadau isod:-

- Cystadeuaeth Golff Llan i noddi twll -cynnigiodd GW i noddi £50 ac fe eilwyd gan AR
- Cais am gymorth i'r Arwydd – Cytunwyd (GW/AR) anfon £50 yn ychwanegol i'n cyfraniad arferol o £100 y flwyddyn – Clerc i nodi hyn yn y llythyr at swyddogion y papur
- Noddi bwrdd hysbys yn y cae peldroed, nodwyd bod hwn yn daliad blynyddol o £50.
- Cais i gronfa Ysgol Haearn noddi twll yn y gystadleuaeth Golff - £50. JAJ i weithredu.(GW/AR)

Cytunwyd yn unfrydol i'r 4 cais uchod.

| **Biliau cyfredol** | **£** |
|---|---|
| Clerc - cost torri goriadau £14.97, archebu gwifrau TG i'r system £13.18 – cyfanswm | 28.15 |
| Cefnogi Cystadleuaeth Golff Llan'medd | 50.00 |
| Rhodd ychwanegol ar gais i'r Arwydd | 50.00 |
| Noddi blynyddol bwrdd hysbys yn CPD Llan | 50.00 |

**Sefyllfa gyfredol**
Cyfrif Cyfredol: £17194.08
Cyfrif Cadw: £24162.56

**Cyfrifon eraill -** adroddodd y Clerc bod banc Nat West am gau 2 gyfrif ( y ddau ar gyfer Eisteddfod Môn yn Llan'medd) oherwydd diffyg defnydd. Cytunwyd yn unfrydol i drosglwyddo yr arian sef £1135 i gronfa cadw C C Llan a'i gustnodi fel arian Eisteddfod i'w ddefnyddio rhywbryd eto pe cyfyd y gofyn. Clerc i weithedu cau'r cyfrifon a'r trosglwyddiad.

**7 Materion Cynllunio**

**Cais FPL/2022/328 Bryn Hafod**
Cytunwyd i gyflwyno'r 'run sylwadau a mis Mawrth 2024 gan ychwanegu

- Holi beth yn union fydd capasiti yr unedau rhentu
- Oes bwriad i ostwng gyrru ar y ffordd fawr i 30 mya i ymateb i'r cynnydd mewn trafnidiaeth o'r safle.

  Clerc i wneud cais i'r swyddog cynllunio perthnasol am ateb i'r pwyntiau uchod yn uniongyrchol.

**Cais OP 21/10 – Ty'n Ffynnon** – wedi ei dynnu'n ôl

**Cais FPL/2022/232 Llwybr Cae Peldroed** – dim gwrthwynebiad gan mai cais y Cyngor Cymdeithas ar ran CPD Juniors ydi hwn.
.



Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** dim i'w adrodd. |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br>**Unedau Tan y Foel -** trafodwyd uchod<br>**Safle'r Stesion –.** trafodwyd uchod<br>**Lawnt Fowlio –** trafodwyd uchod<br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br>**Mynwentydd** – dim i law<br>**Cae gofeb –** dim i law |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd ar y Rhaglen - dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383